

Papur Pawb

Pris: 50c

Mai 2011

Rhif 369



David Hughes-Jones (Barclays) gyda'r plant a rhai o'r gwobrau wedi helpa drysor yr Ysgol Feithrin. Casglwyd y swm anferthol o £593.45, a ddyblwyd gan Barclays.

tud 3

Pobl a Phethe

tud 4

Helfa Drysor

tud 9

Cerdded dros Ddirwest

tud 12

Deuawd Dawnus

RHWYGO'R WLAD?

Mae mwy i ynni gwynt na ffermwydd gwynt! Daeth hynny'n glir o gyflwyniad gan y National Grid yn y Neuadd Goffa dydd Mercher, Mai 4ydd.

Yno i gyflwyno'r neges yn Gymraeg oedd Eluned Lewis a Dwynwen Williams. Mae Eluned yn ferch leol sy'n gweithio i SSE Renewables, sy'n codi'r fferm wynt yn ardal Nant-y-moch, a Dwynwen Williams, o gwmni Atom, Caernarfon, yn un o dîm y National Grid.

Bwriad y National Grid yw codi llinellau pŵer i gario trydan o'r fferm wynt i is-orsaf bŵer naill ai yn Cefn Coch (ar bwys Llanfair Caereinion) neu Abermule. Bydd llinellau eraill, wedyn yn cael eu codi i'r dwyrain gan gysylltu'r is-orsaf â mannau yn y grid cenedlaethol dros y ffin, i'r gogledd o Amwythig.

Bydd y llinellau pŵer hyn fwy na thebyg ar beilonau uwchben y ddaear ac yn torri ar draws cefn gwlad gwyrth. Bydd trigolion Talybont eisoes wedi derbyn gwybodaeth am hyn mewn llenyddiaeth liwgar gan gwmni'r National Grid.

Fe hysbyswyd y genedl o'r



penderfyniad i greu tair ardal anferth ar gyfer datblygu ynni gwynt yn "TAN 8" (*Technical Advice Note 8*) a ddaeth allan o'r Cynulliad dro yn ôl. Tra bydd gan bobl leol gyfle i wneud sylwadau ar union lwybr y llinellau pŵer newydd, nid yw'r cynlluniau yn agored i'r broses gynllunio arferol. Yn hytrach caiff y penderfyniad o blaid neu yn erbyn yr holl gynllun ei wneud ddiwedd Gorffennaf gan gorff newydd o'r enw'r IPC.

Crewyd yr IPC trwy ddeddf gwlad yn 2008 er mwyn cyflymu'r broses gynllunio ar gyfer "cynlluniau ynni mawr", gorsafedd niwclear, meysydd awyr a thrin gwastraff.

Gan gofio fod Talybont, ar ddechrau'r ganrif, yn cynhyrchu ei ynni trydan ei hunan, gofynnodd golygyddion Papur Pawb i Eluned a Dwynwen pam

dir y Comisiwn Coedwigaeth, a lyncwyd gan y Cynulliad, yw'r rhan fwyaf o'r tir yma.

Daeth yn amlwg, yn sgil y sgwrs, bod 'na amgylcheddol uchel i'w dalu am ddatblygu ynni gwynt – pris sydd, er hynny, yn dipyn is nag ynni niwclear sy'n cynhyrchu gwenwyn dieflig sy'n para am filoedd y flynyddoedd. Be sy'n annheg yw ein bod ni yn Nhalybont ac yng Nghymru yn talu'r pris heb dderbyn fawr ddim yn ôl – mewn ynni nac mewn arian.

Os oes gennych farn ar y pwnc anodd yma, gallwch anfon ymateb (trwy Ffurflen Ymateb swyddogol) i FREEPOST NATIONAL GRID MID W CONNECTION (dim cyfeiriad Cymraeg ar gael!) neu gallwch ebostio nationalgrid@cysylltiad.canolbarthcymru.com. Rhaid i unrhyw ymateb i gynlluniau lleol eu cyrraedd erbyn 3 Mehefin. Os hoffech barhau'r drafodaeth yn Papur Pawb, cofiwch gysylltu â golygydd@papurpawb.com. Mae'r papur yn croesawu pob barn, fel arfer!

Afiaith
Gwasanaeth Cyfieithu

Profiadol • Profesiynol
Prydlon • Personol

Martin Davis
Is-y-coed, Tre Taliesin, MACHYNLETH
Ponys SY20 8JG Cymru
Ffôn/Ffacs +44 (0)1970 832230 afiaith@aol.com

CODI Tŷ NEU ESTYNIAD?

Iwan Jones, Technegydd Pensaernïol
Gellimanwydd, Talybont, Ceredigion SY24 5HJ
01970 832760

Papur Pawb

Golygydd Cyffredinol:	Geraint Evans Garnwen, Tal-y-bont, Ceredigion. post@garnwen.org.uk (01970) 832473
Tynnu lluniau:	Cysyllter â golygyddion y mis.
Teipyddes:	Carys Briddon
Bont-goch:	GOHEBYDDION LLEOL
Parsel Henllys:	Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch
Eglwysfach:	Dilys Morgan, Alltgoch
Taliesin:	Wendy Fuller, Pandi, Ffwrnais
Tal-y-bont:	Mai Leeding, Glannant, Taliesin
Tre'r Ddôl:	Aileen Williams, Maesmeillion
Maes y Deri:	Kathleen Richards, Y Bryn
	Susan Lewis, Maesgwyn, Tre'r Ddôl
	Janet Evans, Cefngweiriog
	Eirlys Jones, 91 Maes y Deri
	CYMDEITHAS PAPUR PAWB
Cadeirydd:	Bleddyn Huws, Henllan, Tal-y-bont
Is-gadeirydd:	Geraint Pugh, Dôl Pistyll
Ysgrifennydd:	Megan Mai, Gwynionydd, Tal-y-bont
Trysorydd:	Gwyn Jenkins, Maes Gwyn, Tal-y-bont
Aelodaeth:	Aileen Williams, Maesmeillion
Hysbysebion:	Wendy Fuller, Pandi, Ffwrnais
Plygu:	Gwenllian Parry Jones, Lyn Hammonds
Dosbarthwyr:	Enid Gruffudd, Susan Lewis, Gwenllian Parry-Jones, Eirlys Jones (Tanygrifiadau)

Cyhoeddir gan Gymdeithas Papur Pawb gyda chymorth
Cyngor Celfyddydau Cymru - Bwrdd Gorllewin, a Bwrdd yr Iaith Gymraeg

Dyddiadur

Os am gynnwys manylion am weithgareddau eich mudiad neu'ch sefydliad yn dyddiadur y mis, dylech anfon y manylion llawn at Aileen Williams, Maesmeillion, Tal-y-bont (01970 832438) o leiaf ddeng niwrnod cyn y rhifyn nesaf o Papur Pawb.

Mai

- 15 Bethel - 2 - Gweinidog
Nazareth - Uno ym Methel
Rehoboth - 10 - John Hughes
- 15 - 21 - Wythnos Cymorth
Cristnogol
- 16 Merched y Wawr - Cwrdd
Blynnyddol Lowri Davies-
Crochenwaith
- 19 Sefydliad y Merched- Erwyd
Howells - 2 y p 21
- Clwb Nos Wener -Taith Gerdded
(yng ngofal Rhys a Trish)

- 22 Bethel - 2 - Gweinidog -
Nazareth - 10 - Parch Terry
Edwards
Rehoboth - 5 - Bugail (C)
- 23 Cyngor Cymuned Ceulan
amaesmawr 7.30 y h
- 29 Bethel -10 - Gweinidog
Nazareth - 2 - Parch Judith
Morris
Rehoboth - 10 - Gordon
Macdonald

Mehefin

- 5 Bethel - 5 -Gweinidog
Nazareth - 10 -Bugail (C)
Rehoboth - 5 - Bugail
- 12 Bethel - 10 - Uno yn
Nazareth
- Nazareth -10 - Rhydian Griffiths
Rehoboth - 10 - Bugail (C)
Bethesda, Tynant - 3.30 y Parch
Richard Lewis

Llythyr

Annwyl Olygydd

Llawer o ddolch i chi am y copi cyfredol o Bapur Pawb ac yn arbennig felly'r 'pôl piniwn' ar S4C. Mae'r ymateb yn bositif ac yn amserol iawn i ni yma gan ein bod ynghanol ymgynghoriad ynglŷn â'r amserlen o 2012 ymlaen. Dwi'n hynod ddolchgar i Bapur Pawb am drefnu'r fath ymholiad. Mae'r grŵp sy'n gweithio ar lunio'r amserlen newydd wrthi'n brysur ar hyn o bryd yn y stafell drws nesaf - mi af a'r papur yno nawr.

Cofion cynnes,

Arwel Ellis Owen,
Prif Weithredwr S4C

Cynhyrchwyd y rhifyn hwn gan Enid a Robat Gruffudd. Golygir y rhifyn nesaf gan Mair Nutting (832 027, mair.n@btinternet.com) a Beryl Evans (832344, rhian.evans@tiscali.co.uk). Dyddiad cau 03/06, papur allan 10/06.

Noddir gan
Lywodraeth
Cynulliad Cymru



Cydnabyddir cefnogaeth
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
i'r cyhoeddiad hwn

**BWRDD YR IAITH
GYMRAEG • WELSH
LANGUAGE BOARD**

Cofio Mair

Mair Griffiths, Nantddu, Talybont

Yn dawel ar brynghawn lau yr 21ain o Ebrill yn Ysbyty Bronglais hunodd Mair (Mary Elizabeth) Griffiths. Tristwch i'w theulu a llu o gyfeillion, pell ac agos, oedd y newydd a ddaeth yn sydyn yn y diwedd, er na fu mewn iechyd da ers peth amser.

Ganwyd Mair yn 1938 ar fferm Tanrallt, Taliesin; yn ferch i'r diweddar Gynghorydd a Mrs Gwilym Jones; yn chwaer i Trefor Jones, Cwmcae. Cafodd ei haddys yn gyntaf yn Ysgol Llancynfelyn ac yna yn Ysgol Ramadeg Ardwyn. Penderfynodd ddilyn gyrfa yn y byd nyrsio a bu'n hyfforddi yn Ysbyty Heol y Gogledd ac yna yn Ysbyty Llandochau, Caerdydd, cyn dod yn Nyrs Gofrestredig (S.R.N.). Bu Mair yn gyfrifol am lawer i gartref preswyl i'r henoed lle'i hadnabyddir gan bawb fel 'Matron' - cartref Avondale yn gyntaf ar y prom ac wedyn cartref Bodlodeb. Bu'n gweithio fel 'District Nurse' o Feddygfa'r Borth



ac yn ardal Aberystwyth gan ddod i adnabod llawer. Bu yng ngofal Cartref Tregerddan am nifer o flynyddoedd cyn ei hymddeoliad ac, wedi 'ymddeol', bu'n gweithio am ychydig yng nghartref preswyl Plas Cwmcynfelin.

Priodwyd â David Elwyn (Dei) yn 1976 gan ymgarthreffi yn Nantddu yn hyfrydwch Cwm Eleri, lle magwyd eu dwy ferch, sef Sara ac Angharad. Yn eu tro fe ddaeth yr wyron a'r wyresau - Siôn Ifan, Tomos, Elin a Fflur - i gael sylw gan Fam-gu addfwyn a hael.

Roedd gan Mair amryw o ddiddordebau gan gynnwys garddio a choginio. Bu iddi gystadlu'n llwyddiannus iawn yn yr adran goginio mewn sioeau a gwnaeth gacennau priodas i lawer cwpwl dros y blynyddoedd. Hoffai deithio gan ymweld â nifer o wledydd tramor yn ei ieuencid. Bu hefyd yn aelod ffyddlon o Ferched y-Wawr am lawer blwyddyn.

Yn ôl ei dymuniad cynhaliwyd gwasanaeth angladdol i'r teulu agosaf ar yr aelwyd yn Nantddu ar yr 28ain o Ebrill dan ofal y ei gweinidog, y Parch. Wyn Morris.

Hoffai Dei, Sara ac Angharad ddatgan eu diolch diffuant am y caredigrwydd a'r cymorth a dderbyniasant gan deulu estynedig, cymdogion a ffrindiau lu yn eu profedigaeth.



Actores o fri!

Llongyfarchiadau mawr i Catrin Jenkins, Angorfa, Ffwrnais sydd wedi ennill yr actor gorau ddwy waith yn olynnol. Perfformiodd cwmni drama Licris Olsorts y ddrama "Ni'n Dwy" gan Nan Lewis, yng Ngŵyl Ddrama Powys yn Llanrhaeadr ym Mochnant ym mis Chwefror gyda'r ddrama yn dod yn gyntaf, ac yna yng Ngŵyl Ddrama Groeslon ym mis Ebrill gyda'r ddrama yn dod yn ail. Cafodd Catrin ganmoliaeth uchel gan y beirniaid. Awgrymodd y beirniad petai Catrin yn bêl droedwraig a sgowt yn gwylio'r gêm byddai wedi bod yn chwarae i'r tîm ers tro byd!! Be sydd nesa Catrin?

Mae Papur Pawb yn awyddus i gynnwys newyddion am hynt a helynt unigolion neu dimau o'r ardal sy'n cystadlu yn y byd chwaraeon. Anfonwch yr hanesion at Gwyn Jenkins drwy e-bost (maesgwyn@fmail.net) neu ffoniwch ef ar 832560.

**Bistro
Gannets**

Bwyd a Gwin Da
7 St James Square, Aberystwyth
617164
Ar agor Llun i Sadwrn
12-2 a 6-9.30

W.J.GRUFFYDD

Bu farw W.J.Gruffydd, neu Elerydd i roi iddo ei enw barddol. Bu'n weinidog yng Nghapel Tabernacl, Talybont am gyfnod, a dyna pryd y cyfansoddodd ei bryddest Ffenestri a enillodd iddo'r goron yn Eisteddfod Genedlaethol Pwllheli yn y flwyddyn 1955. Dywedir fod rhai o gymeriadau ac ambell i dŷ a golygfa yn y pentref wedi bod yn symbyliad iddo gyda'r orchest hon er mai ardal Ffair Rhos yw prif angor wrth gwrs, ac yno yr oedd canolbwynt ei fywyd.

Enillodd Goron yr Eisteddfod ddwy waith, ac fe'i dyrchafwyd yn Archdderwydd. Ysgrifennodd nifer o nofelau a chyfrolau o farddoniaeth ac ef oedd awdur Tomos a Marged, cyfres a fu'n rhedeg am flynyddoedd yn y Cambrian News. Coffa da amdano.

Y LLEW GWYN, TALYBONT

Llongyfarchiadau mawr i dafarn Y Llew Gwyn ar ddod yn ail mewn cystadleuaeth a drefnwyd gan CAMRA. Cystadleuaeth i ddewis y dafarn orau mewn cylch eang yn ymestyn o Fachynlleth yn y gogledd i Aberporth yn y de. Y Ship and Castle, ddaeth yn gyntaf yna'r Llew Gwyn yn rhannu llwyfan gyda'r Harbwrfeistr yn Aberaeron. Disgrifiwyd y Llew Gwyn fel tafarn a roddai wasanaeth gwyb i bentref Talybont a'r ardal. Tafarn bentref heb ei hail.



Clocswyr Ceulan o Ysgol Penweddig: Medi, Esther, Elen, Jen, Lois, Elen, ac Efa. Pob lwc iddyn nhw wrth gystadlu yn y ddawns stepio 12-25 oed yn Eisteddfod yr Urdd yn Abertawe. Diolch i Alaw Lewis am eu hyfforddi ac i Falyri Jenkins am gyfeilio.

Anfonwn ein cofion at Rosie Evans 71, Maesyderi sydd wedi symud dros dro i Gartref Tregerddan.

Mae Gwyneth Evans, 2, Tyrrel Place, Talybont wedi symud i Gartref Cwmcynfelin. Dymunwn y gorau iddi yn ei chartref newydd.

Drwg gennym glywed fod Christine Evans wedi torri ei braich tra yn ymweld â'i mam yn Paris.

CYDYMDEIMLO

Cydymdeimlwn yn fawr â Philip Davies, Gwynionydd, Talybont ar golli ei fam yn ddiweddar. Rydym yn cofio at Megan, ac hefyd Hedydd ac Eurgain, yn eu profedigaeth.

Pobl a Phethe



Llongyfarchiadau i Esther Llwyd Ifan, Llys Alaw am ddod yn ail ar y delyn yn y gystadleuaeth offerynnol blwyddyn 9 ac iau yn Eisteddfod Teulu Pantyfedwen, Pontrhydfendigaid.

Cydymdeimlwn â theulu Edith Thomas a fu farw yng Nghartref Plas Cwmcynfelin. Roedd ganddi berthnasau lawer yn Nhalybont ac ardal Bontgoch.

Trist yw cofnodi marwolaeth sydyn Kathleen Smith o'r Alban. Roedd Kathleen yn chweraer yng nghyfraith i'r teulu Smith/Harker o Gwelfor 4, Maesyderi. Cydymdeimlwn efo'i gŵr Tom, a'u plant Geraint a Ceiriog. Roedd Kathleen yn hoff o Gymru ac yn treulio gwyliau yn Nhalybont yn ystod yr haf a'r hydref.

LLONGYFARCHIADAU

Llongyfarchiadau i Bill Gardener ar ddathlu ei benblwydd yn wyth deg mis diwethaf. Dathlodd yng nghwmni ei deulu. Dymunwn ninnau hir oes iddo a llawer blwyddyn arall ymysg ei ffrindiau yn Nhalybont.

Llongyfarchiadau i Nia Wyn Davies, Tir Addo Tre'r Ddôl ar ei dywediad â Neville Wyn Davies.

GWYL DELYNAU

Dros wyliau'r Pasg cafodd Medi Evans gyfle i fynd i Ganolfan Gerdd William Mathias yn y Galeri yng Nghaernarfon i gymryd rhan mewn cwrs telyn dau ddiwrnod. Cafodd y fraint o fod mewn grŵp o dan hyfforddiant Elinor Bennett a gweithio ar gwpwl o ddarnau ar gyfer ensemble y byddent yn eu perfformio efo'r dosbarthiadau eraill mewn cyngerdd ar ddiwedd y cwrs. Roedd yna ddau gyngerdd ar gael yn y nos yn ystod y cwrs. Ar

y noson gyntaf cafwyd cyngerdd gan gyn disgyblion y ganolfan sydd bellach yn astudio mewn gwahanol golegau a dyna beth oedd cyngerdd arbennig ac yna ar yr ail noson roedd cyngerdd gan Alan Stivell chwaraewr enwog ar y delyn Geltaidd. Yn ystod y cwrs hefyd bu Medi yn ddigon ffodus i gael dosbarth meistr gydag Elinor Bennett ar ei darnau arholiad nesaf. Mwynhaodd y profiad yma a'r cwrs yn fawr iawn a gobeithia fynd yn ôl rhywbryd yn y dyfodol

FICER NEWYDD

Cafodd y Parchedig Peter Jones sydd yn Gwrat yn ardal Hubberston, Sir Benfro, ar hyn o bryd, ei benodi yn Offeiriad mewn Gofal i Eglwys Llandre, Talybont a Llangorwen. Mi fydd y Parchedig Peter Jones, ei wraig Carol, a'i mherch Elen yn symud i fyw i'r Ficerdy yn Bow Street ganol mis Mai.

Cynhelir gwasanaeth ordeinio'r Parch Peter Jones yn Eglwys

Llangorwen ar nos Lun, 16 Mai, 2011 am 7.00 o'r gloch. Bydd yna groeso cynnes i baw sydd am ymuno yn yr achlysur.

BYW YN YR ARDD

Braf oedd gweld Russell Jones, Bron y Gân, Talybont, ar y rhaglen 'Byw yn yr Ardd' yn ddiweddar. Roedd yn cynghori Bethan Gwanas ar y dewis o fwyd i'w roi i adar gwylltion. Mae Russell yn warden yng ngwarchodfa adar Ynyshir.

Rydym yn deall fod Alwyn Jones Penlôn wedi bod yn yr ysbty yn cael triniaeth ar ei benglin, ac mae Heledd Davies, Gwynfryn, Talybont hefyd wedi bod yn yr ysbty, ond da deall ei bod adref erbyn hyn ac yn gwella.

Hefyd mae Gwen Manley Sŵn-Leri, Talybont wedi bod yn yr ysbty, ond mae hithau wedi dod adref ac yn gwella. Anfonwn ein cofion cynhesaf atoch.

Croeso i Rhian Jones, Penlonlas a Clive Morgan o Benparcâu sydd wedi cartrefi yn Hafodawel, Talybont.

CREU MWGWD

Llongyfarchiadau i Ffion Nelves, Dolau Gwyn, Tre'r Ddôl sy'n ddisgybl yn Ysgol Gyfun Penweddig ar ennill y 3edd wobwr yng nghystadleuaeth CDT Cenedlaethol yr Urdd. Ewch ar wefan yr Urdd i gael golwg arno. Mae'n werth ei weld.

GOLCHDY LLANBADARN

CYTUNDEB GOLCHI
GWASANAETH GOLCHI
DWFES MAWR
CITS CHWARAEON



GERAINT JAMES

Ffôn: 01970 612459 Mob: 07967235687
Valrosan, Pwllhobi, Llanbadarn Fawr,
Aberystwyth SY23 3SL

Cylch MEITHRIN Talybont



Am y tro cyntaf, cynhaliodd Cylch Meithrin Tal-y-bont Helfa Drysor y Pasg ar ddydd Sadwrn, 23 Ebrill. Roedd plant o bob oed, a phobl yr ardal wedi dod i'n cefnogi. Dechreuodd yr helfa yn y Neuadd Goffa, gan fynd draw heibio'r Eglwys ac yna i Ffald Pempompren – cafodd y



plant gyfle yma i weld amryw o wahanol anifeiliaid, gan gynnwys cwn a chathod bach, hwyiaid, ieir a chywion bach a cheffyl. Cawsant gyfle i roi llaeth i'r wyn swci. Gyda'r plant yn mwynhau eu hunain gymaint ymysg yr

anifeiliaid, roeddent bron ac anghofio am weddill yr Helfa Drysor! Rhaid oedd parhau ar hyd y lôn gefn, cyn mynd lawr y llwybr cyhoeddus a thros y bont, ac yna dychwelyd i'r Neuadd

Goffa i'r plant gael eu gwobrau. Yno roedd diod a chacennau i bawb ar ôl yr holl waith caled o chwilio. Rhwng yr Helfa Drysor, y stondinau yn y Neuadd, gwerthu'r sgwariau a'r raffl, codwyd swm anrhydeddus o £593.45. Diolch i David Jones-



Hughes, o fanc Barclays, am ei gymorth yn trefnu'r digwyddiad, gwerthu'r sgwariau a'i gefnogaeth yn ystod y diwrnod. Diolch hefyd i Barclays am ein cefnogi drwy'r cynllun Punt am bunt, gan wneud y swm terfynol yn £1186.90. Bydd hyn o fudd mawr i'r Cylch er mwyn medru ehangu'r ddarpariaeth allanol.

Eleni mae'r Mudiad yn dathlu ei ben-blwydd yn 40 oed, ac roedd y Mudiad yn teimlo ei fod yn amserol i gael logo newydd. Teimlwyd ers peth amser fod y Mudiad wedi datblygu o fod yn fudiad a sefydlwyd yn wreiddiol er mwyn sefydlu 'Ysgolion

yn gyfarwydd a threfn Cylch Meithrin Tal-y-bont, rydym yn derbyn plant o bentrefi Glandyfi, Eglwysfach, Ffwrnais, Tre'r Ddôl, Taliesin, Tal-y-bont a Bontgoch. Gyda'r plant, ar ôl troi yn 4 oed, wedyn yn symud ymlaen i naill ai Ysgol Gymunedol Tal-y-bont neu Ysgol Gynradd Llancynfelyn. Ers mis Medi llynedd, mae'r Cylch yn derbyn plant o 2 oed i fyny. Ar hyn o bryd mae 25 o blant ar y gofrestr!

Plant dan 3 oed – sesiynau pnawn

Dydd Llun i ddydd Mercher, 12.30 – 3.30

Plant dros 3 oed – sesiynau bore

Dydd Llun i ddydd Iau, 9.00 – 12.00

HELFA DRYSOR Y PASG



Meithrin' led-led Cymru i fudiad sydd wedi datblygu yn fudiad o statws cenedlaethol sy'n cael ei gydnabod bellach fel 'arbenigwyr y blynyddoedd cynnar' yng Nghymru. Yn sgil hyn penderfynodd y Mudiad i newid yr enw o Mudiad Ysgolion Meithrin i Mudiad Meithrin.

I'r rheiny ohonnoch sydd ddim

Felly, os oes ganddoch ddiddordeb i'ch plentyn fynychu'r Cylch Meithrin, galwch i mewn i'r 'Ty Sbri' (caban y Cylch Meithrin, wrth law Ysgol Tal-y-bont) i gael gair gyda un o'r arweinyddion.

CATRIN JENKINS





Hwyl gyda Hetiau

Nos Lun Ebrill 18ed cafodd aelodau cangen Talybont o Ferched y Wawr hwyl fawr yng nghwmni Edna Griffiths.

"Boneda Brithdir" oedd y teitl, a hwnnw'n gwneud i chi feddwl beth yn wir yw boned? Does neb yn gwisgo "boned" y dyddiau hyn, ond buan y cawsom weld beth oedd yr ystyr. Daeth hetiau o bob lliw a llun allan o'r bocsus, a phob un wedi ei gwneud gan Edna.

Dangosodd i ni beth yw sylfaen gwneud het. Y defnydd crai i ddechrau, penderfynu ar y maint a'r siap. Yna rhoi pethau at ei gilydd, defnydd yr het, yna'r addurn, a allai fod yn flodyn, yn rhaban neu hyd yn oed yn ffrwyth wedi ei sychu. Gwisgai Edna bob un o'r hetiau yn ei thro gan ddangos sut roedd het yn gallu newid personoliaeth rhywun.

Roedd hi wedi dod â dyrch wrth gwrs, a chawsom hwyl fawr yn rhoi'r gwahanol hetiau ar ein pennau a chymharu steil y naill â'r llall.

Mae Edna'n cynnal gweithdai gwneud hetiau i blant ac oedolion, yn arddangos ei chynryrch, ac yn gwerthu hetiau mewn "Bwtics" crand yn yr Amwythig.

Diddorol nodi fel roedd Edna Griffiths yn arddangos y grefft o wneud hetiau yn ei chadarnle, sef Tre'r Ddôl ble gwneid hetiau hyd at

ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Ar un adeg dywedir mai o Geredigion y cai pobol gyffredin de Cymru i gyd eu hetiau.

Enid Gruffudd oedd yn cyflwyno Edna Griffiths a diolchwyd iddi gan Aileen Williams. Margaret Jones ac Elisabeth Evans oedd yn gyfrifol am y têt.

YSGOL SUL BETHEL

Brynhawn Sul y Pasg cyflwynodd yr Ysgol Sul wasanaeth yn seiliedig ar Yr Wythnos Sanctaidd. Gwelwyd y plant lleiaf gyda phenwisgoedd asynnod yn perfformio sgets wedi ei seilio ar yr olygfa ym Methania pan ddaeth dau o'r disgyblion i ddewis asyn i gario'r Iesu i Jeriwsalem. Perfformiodd y plant cynradd olygfa'r milwyr yn paratoi i fynd i Ardd Gethsemane. Cymerodd yr ieuencid at y rhannau arweiniol a chafwyd cymorth gyda darlleniadau, ymson Pedr, emynau a gweddi gan aelodau'r eglwys a ffrindiau'r Ysgol Sul. Croesawyd y Parch John Gwilym Jones i roi anerchiad a mawr oedd ei ganmoliaeth i'r plant. Wedi'r oedfa, mwynhawyd cwpaned a chacen.



Adolygiad

Blas o Iwerddon


Dyma lyfr Cymraeg am fagwraeth bachgen yn Iwerddon. Diarmuid Johnson yw'r awdur sydd a'i fam yn hanu o Geredigion. Daw ei famgu, Sarah Elen Jones o Dre'r Ddôl ble bu'r teulu yn ffermio yn Pant Coch a pherthnasau wedi bod yn byw yno am ddwy ganrif. O ardal Aberteifi y deuai ei dad ac i'r ardal honno yn bennaf y dychwelai'r teulu ar ymweliadau â Chymru bob haf.

Ar hyn o bryd mae Diarmuid yn byw yn y Borth. Ai'r môr sy'n ei ddenu? Mae llawer o sôn am ei gariad at y môr yn ei lyfr, a llawer o hanes Iwerddon wedi ei wau i

mewn i brofiad plentyn ar ei dyfiant. Mae'r hanes yn cael ei gyflwyno mewn ffordd ddi-dwyll wrth i ni synhwyro ymateb y plentyn i lawer o'r erchyllerau a ddigwyddodd yn Iwerddon.

Er iddo ddweud iddo gael ei fagu yn Wyddel, mae'r Cymro'n llechu yn ei achau Gwyddelig. Mae'n rhugl yn y Wyddelig a'r Gymraeg ynghyd â nifer o ieithoedd eraill. Mae'n fardd, yn academydd ac yn gerddor, a daeth ei ddawn gerddorol a phrofiadau di rif iddo yn Iwerddon ac yn ddiweddarach yng Nghymru.

Pleser oedd darllen y llyfr. Braf oedd cael y mwynhad o'i ddarllen a dysgu cymaint am yr Iwerddon yr un pryd.



Gwasanaeth Gwybodaeth Ceredigion i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd

- Chwilio am ofal plant?
- Eisiau gwybod sut i fod yn ofalwr/wraig plant?
- Chwilio am weithgareddau plant a phobl ifanc?
- Eisiau hysbysebu gweithgareddau plant a phobl ifanc?

Cysylltwch â ni am fanylion pellach

Ffôn/Phone: 01545 574187

**E-bost: cis@ceredigion.gov.uk
Gwefan: <http://cis.ceredigion.gov.uk>**

Neuadd Cyngor Ceredigion
Penmorfa, Aberaeron,
Ceredigion, SA46 0PA



Hanes Lleol Sefydliad y Merched

Hoffwn ofyn i gyn-aelodau Sefydliad y Merched yn Nhalybont a'u cydnabod os gallent fynd i chwilio am hen ddogfennau yn ymwneud â'r mudiad dros y 95 mlynedd o'i fodolaeth. Fel ysgrifennydd rwyf wedi gwirfoddoli i drefnu'r deunydd sydd gennym a chreu archif. Buaswn yn ddiolchgar am lungopiau a lluniau o unrhywbeth perthnasol sydd wedi ei gadw gan rai o'r aelodau ynghyd a gwybodaeth ble gallwn weld y gwreiddiol. Mae gennyf ddi-ddordeb mawr mewn hen lyfrau cofnodion. Mae gennym enghraifft o gofnodion am y flwyddyn 1925 yn swyddfa'r mudiad.

Cangen Talybont o Sefydliad y Merched yw'r ail-hynaf ym Mhrydain. Mae cangen Llanfair P.G. yn hŷn. Honno yw'r gangen hynaf ym Mhrydain gyfan. Sefydlwyd hi yn y flwyddyn 1915 yn dilyn patrwm a sylfaenwyd yng Nghanaada gan Adelaine Hoodless. Y bwriad oedd dysgu

sgiliau ymarferol i wragedd priod di-brofiad. Mae'r mudiad wedi ehangu cymaint ers y dyddiau cynnar. Bydd Cangen Talybont yn dathlu ei 95 mlyneddiant ym mis Tachwedd. Byddai'r aelodau yn hoffi cael archif wedi ei gatalogio erbyn dathlu'r 100 er mwyn cael edrych yn ôl dros y blynyddoedd a dilyn hynt y menywod hynny a fyddai'n cerdded pellter mawr drwy'r tywyllwch, ac yn amal drwy stormydd y gaeaf er mwyn cyrraedd y cyfarfodydd. Weithiau caent gryn wrthwynebiad gan eu gŵr am fynychu'r fath gyfarfodydd.

Ers i Elsie Thomas fod yn wael (mae'n dda dweud ei bod ar wellhâd) fi yw'r unig aelod gweithredol sy'n enedigol o Dalybont, felly rwy'n teimlo cyfrifoldeb i wneud y gwaith hwn Ysgrifennodd Elsie ddarn defnyddiol iawn yn "Ein Canrif". Roedd ei mam hi'n un o'r aelodau cyntaf.

Rydym bob amser yn falch

argraffu gorau'r gorllewin



holwch Paul am bris ar paul@yloffa.com

yloffa

Talybont Ceredigion SY24 5HE
01970 832 304 paul@yloffa.com
www.yloffa-print.com

Gofal Traed Aber

Ceiropodydd

Podiatrydd Cofystredig gan yr H.P.C.

- Triniaethau ar ewinedd a chyrn
- Llawdriniaeth ar gasewinedd
- Triniaeth/asesiad arbenigol ar draed diabetig
- Gwadnau ac asesiad biomechanyddol

Triniaeth yn y cartref ar gael

Galwch Shân Jones neu Richard Ellison
01970 617269

4, Y Porth Bach, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2AR



o dderbyn aelodau newydd. Gallwch ddarganfod gwybodaeth am Sefydliad y Merched ar wefan NFWL, neu gallwch alw yn swyddfa sirol y mudiad i siarad â'r ysgrifennyddes Marilyn Coleman yn ein swyddfa, 11, Cambrian Place, Aberystwyth.

Mae'r swyddfa ar agor ar ddydd Mawrth rhwng 10yb a 21p.

Gallwch gysylltu â mi ar 01970832574 neu ar ebost sheila.talbot@homecall.co.uk

SHEILA TALBOT

Ysgrifennyddes Sefydliad y Merched, Talybont

0 Benrhyncoch i Lourdes

Ar ddydd Sadwrn, Mai 28ain, cynhelir dwy gêm bêl-droed ym Mhenrhyncoch er mwyn codi arian at elusen.

Bydd timau ieuencid "ICIL – Aberystwyth – WYTL" yn chwarae yn erbyn timau o Glwb Pêl-droed Penrhyncoch. Does dim tâl mynediad, ond bydd casgliad gwirfoddol mewn bwcedi – gydag ocsiwn/raffl yn y Clwb Pêl-droed yn dilyn y gemau.

Bydd yr arian i gyd yn mynd tuag at gostau chwech o bobl ifanc sy'n mynd o ardal Aberystwyth a Gogledd Ceredigion i wirfoddoli yn Lourdes am wythnos yn yr haf. Maent yn ceisio codi tua thair mil o bunnoedd er mwyn cyrraedd Lourdes – ac eisoes

maent wedi codi oddeutu dwy fil.

Yn Lourdes, byddant yn cydweithio â ieuencid eraill o nifer o ardaloedd yng Nghymru a byddant yn helpu pobl sâl ac anabl yn ystod Pererindod Genedlaethol Cymru i Lourdes – sydd yn dathlu hanner canmlwyddiant eleni.

Felly, os am brynawn plaserus ar Fai 28ain, dewch draw i Glwb Pêl-droed Penrhyncoch. Bydd gêm y merched (pump bob ochr – 20 munud bob ffordd) yn dechrau am 2.00 a gêm y bechgyn (un ar ddeg bob ochr – 45 munud bob ffordd) yn dechrau am 3.00.

Bydd Ocsiwn/raffl yn y Clwbdy yn dilyn y gemau.

Bydd prydiau bwyd blasus ar gael yno am brisiau rhesymol.

Gorymdeithio dros Ddirwest

Rhwng nawr a mis Gorffennaf bydd y Tymor Martsio ar ei anterth yng Nghogledd Iwerddon, er bod llai o sôn y dyddiau hyn am Drumcree, Portadown a'r Urdd Oren. A wyddoch chi fod Tymor Martsio ardal Papur Pawb newydd basio? A bod gwreiddiau enwadol, os nad sectyddol i'r gorymdeithiau hyn? Gan ein bod yn byw yng Nghymru fach, te, cacs a chyngherdd gafwyd ar ddiwedd y dydd ac nid tywallt gwaed.

I fod yn fanwl gywir, daeth yr arfer o gerdded rhwng Taliesin a Thre'rddôl i ben rhyw drigain o flynyddoedd yn ôl, ond Dydd Gwener y Groglith oedd y diwrnod mawr ac yn achlysur pwysig yng nghalendr capeli Soar a Rehoboth.

Mae'n debyg fod rhai o'n darllenwyr wedi gweld ar y teledu, neu yn rhai o bapurau Cymraeg am yr arddangosfa 'Pregethwyr a phulpudau' yn Amgueddfa Ceredigion, Aberystwyth. Canolbwyt yn arddangosfa yw'r faner anferth a gariwyd gan aelodau Ysgol Sul Rehoboth at Dre'rddôl ac yn ôl. Ond roedd gan Ysgol Sul Soar hwythau eu baner, ac, ar ôl ychydig o waith ymchwil, darganfyddwyd fod y faner hon hefyd wedi goroesi ac, ar hyn o bryd, yn yr Amgueddfa Werin, Sant Ffagan. Hon a welir yn y llun, gyda'i chludwyr y tu allan i'r Hen Gapel yn Nhrefyddol yn y 1920au, neu, efallai, y 1930au.

Mae 'na rai o hyd, trigolion a cyn-drigolion Taliesin yn cofio'r cerdded ac, er na fyddai neb ohonynt yn galw eu hunain yn 'spring chickens', cof plentyn sydd ganddynt o'r diwrnod, ac felly, y canu a'r danteithion yn aros yn y cof, yn hytrach na seilau diwynyddol yr orymdaith.

Roedd Bill Evans, Prestatyn, gynt o Seaview, Taliesin, yn cofio cerdded o gapel Soar ar ddiwedd



y pedwardegau. Erbyn hyn, roedd y daith wedi'i chyfyngu i drip o amgylch Banana Island, sef cychwyn o Soar am 2.00, mynd ar hyd y ffordd osgoi newydd ac yn troi i mewn i'r Hen Gapel i de. Mae rhai yn cofio, cyn y rhyfel, y byddai Soar yn cerdded at y Free Trade Hall yn Nhaliesin, cyn troi am adref. Yn ôl yn yr Hen Gapel mi fyddai'r chwarydd wedi bod yn brysur yn paratoi te ardderchog i'r plant – brechdanau o bob math, gyda jam, cacennau ond yn fwyaf pwysig, 'jeli a blancmange'. Wedi i'r plant swmlyd lenwi eu boliau caent eu hanfon allan i chwarae er mwyn i'r oedolion gael llonydd i fwyta. Tua chwech byddai pawb yn ôl mewn i'r capel am y cyngerdd – canu, adrodd, ambell sgets neu ddrama fer.

Rhywbeth tebyg yw atgofion Mrs Annie Watkin, Brynawel, Taliesin o gerdded o Rehoboth cyn y rhyfel. Pawb yn eu dillad gorau a sgidau newydd ambell un yn pinsio wrth eu gwisgo am y tro cyntaf. Byddai'r plant wedi'u trefnu bob yn ddau i gerdded i lawr at Soar ac yn ôl. Ychydig iawn o gerbydau oedd ar y ffordd pryd hynny, felly roedd yn ddigon diogel iddynt fod ar y ffordd. Yn y tridegau byddai'r ddwy garfan yn pasio ei gilydd rhywle ar y ffordd ac efallai her yn taflu o'r naill at y llall, ond ni fyddai'r oedolion yn caniatáu unrhyw gamfihafio ar achlysur mor bwysig. 'Cherry cake' oedd y ffefryn oedd yn eu disgwyl yn ôl yn festri Rehoboth ac eto gyda'r nos cyngerdd. Byddai dwy athrawes o'r ysgol, Laura Pugh ac Edna Edwards, wedi bod wrthi ers wythosau yn dysgu'r plant, yma hefyd roedd dawnsio gwerin a chystadleuaeth canu'r organ.

Wrth gwrs, nid y plant fyddai'r cario'r baneri anferth, trwm. Dau ddyn, blaenoriaid, fel Mr Edwards, Temperance, neu Mr Thomas

Mae'n debyg i'r gorymdeithio ddod i ben yn y pumdegau wrth i drafnidiaeth gynyddu ar y ffordd, a rhoddwyd y baneri i orwedd mewn cypyrddau llaith am ddegawdau, felly rydym yn lwcus heddiw fod y gwrthrychau cain ond bregus wedi'i diogelu i genedlaethau i ddod.

JOHN LEEDING

PANELI SOLAR

Mae 'na griw bach lleol yn dod at ei gilydd yn Nhalybont i drafod y posibilrwydd o archebu paneli solar (PVP) yn rhatach mewn grŵp.

Cynhelir cyfarfod ar y 23ain o fis Mai, am 6 o'r gloch, lle bydd yn bosib gofyn cwestiynau i'r peirianydd ac hefyd rhywun sydd eisoes yn defnyddio'r system. Os oes gennych ddiddordeb, ac eisiau rhagor o wybodaeth – e-bostiwch lindalime@aol.com neu ei ffonio ar 832 781.

MID WALES STORAGE

STORFA CANOLBARTH CYMRU

STORFA DODREFN

STORFA FUSNES ARCHIFAU

STORFA I FYFYRWYR

PACEDU

DIOGELWCH BT REDCARE 24 AWR
CCTV
WEDI GYNHESU
CIWBICLAU £10 YR WYTHNOS

www.midwalesstorage.co.uk

Heol Y Doll
Machynlleth
SY20 8BQ

Tel 01654 703592



Llangynfelyn YSGO



Pêl-droed yr Urdd: tîm merched

Penodiad

Llongyfarchiadau mawr i Miss Caryl Davies ar gael ei phenodi fel athrawes yn Ysgol Comins Coch. Er ein bod yn drist iawn y bydd hi'n gadael Ysgol Llangynfelyn ar ddiwedd Tymor yr Haf, rydym hefyd yn ei llongyfarch yn fawr ac yn dymuno'r gorau iddi ar gyfer y dyfodol.

Ffarwelio

Gorffennodd Mrs Phyllis Ellis weithio yn ein Clwb Brecwast yn gywiliu'r Pasg. Diolchwn iddi am ei holl waith caled yn yr ysgol dros y blyneddoddd.

Penwythnos Llangrannog

Ar ddechrau mis Ebrill aeth Ffion Hicks am gwrs penwythnos i Wersyll yr Urdd Llangrannog. Cafodd Ffion gyfle i roi tro ar amryw o weithgareddau a bu'n cymdeithasu gyda phlant eraill o ysgolion Cynradd Ceredigion. Diolchwn i Miss Caryl Davies am fynd gyda Ffion ar y benwythnos.

Gweithgareddau'r Pasg

Bu holl blant yr ysgol yn



**Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A
BUSNESAU**

*Gofynnwch am bampfedd
rhod ac am ddim*

James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

cymeryd rhan mewn amryw o weithgareddau yn ystod y cyfnod yn arwain fyny at y Pasg. Cafwyd Helfa Wyau Pasg ar dir yr ysgol gyda pharau o blant yn mynd at i ddod o hyd i wyau Pasg lliwgar. Mwynhaodd pawb fwyta'r wyau Pasg siocled ar ddiwedd yr helfa. Bu Dosbarth Mrs Nemes yn brysur yn gwneud hetiau Pasg a'u haddurno gyda phlu ac addurniadau o bob lliw a llun.

Pêl-droed 7 bob-ochr yr Urdd

Aeth merched Blyneddoddd 4, 5 a 6 i gaeu Blaendolau ar y 14eg o Ebrill i gymeryd rhan yn nghystadlaeth pêl-droed 7 bob-ochr yr Urdd. Buont yn chwarae yn erbyn ysgolion Cynradd eraill o Geredigion. Er nad oeddynt yn llwyddiannus, cafwyd diwrnod hwyliog iawn.

Traws gwlad yr Urdd - Ceredigion

Cynrychiolodd Jac Jones, Blwyddyn 4 yr ysgol yng nghystadlaeth traws gwlad yr Urdd, Ceredigion. Daeth Jac yn y 10 cyntaf yn ei ras yn Aberystwyth nol ym mis Hydref cyn mynd ymlaen i gynrychioli ardal Aberystwyth yng Ngwersyll yr Urdd Llangrannog. Llwyddodd i ddod yn 12fed. Llongyfarchiadau mawr i ti Jac!

Plant Newydd

Braf iawn ydy croesawi bedwar o blant bach newydd pedair oed i Ddosbarth Mrs Nemes. Dechreuodd Bess Elliott, Danny Jenkins, Finn Langley ac Iwan Foster-Leslie ar ôl gwyliau'r Pasg. Gobeithiwn y byddant yn hapus iawn gyda ni yn Ysgol Llangynfelyn.

Ioga

Aeth disgyblion Blyneddoddd 5 a 6 i Neuadd Goffa Talybont yn ddiweddar i gymeryd rhan mewn sesiwn ioga i athrawon. Roedd athrawon ioga 'Ioga i Bawb' yn cynnal diwrnod hyfforddi i athrawon ysgolion Cynradd a dangoswyd iddynt sut i ddysgu ioga i blant. Bydd lluniau o'r plant yn cael eu defnyddio hefyd ar gardiau hyfforddi i athrawon.

Gweithdy Arian Banc Barclays

Daeth Mrs Llinos Jones a Ms Serena Prakash o Fanc Barclays, Aberystwyth i'r ysgol i gynnal gweithdy gyda phlant Blyneddoddd 5 a 6. Dysgodd y plant am sut i fuddsoddi arian a buont yn gweithio'n ymarferol ar sut i ddatrys problemau yn ymwneud ag arian. Diolchwn i'r ddwy am roi o'u hamser.

Ymweliad ag Amgueddfa Aberystwyth a Chastell Aberystwyth

Aeth Dosbarth Mrs Nemes ar ymweliad i Amgueddfa Aberystwyth a Chastell



Ymweliad â Chastell Aberystwyth

Aberystwyth ym mis Ebrill. Fel rhan o'r gwaith ar adeiladau a chartrefi, gwelodd y plant hen arteffactau yn y bwthyn yn yr amgueddfa a buont yn golchi dillad gan ddefnyddio hen offer. Ar ôl bore prysur yn yr amgueddfa, aeth pawb i Barc y Castell i chwarae ac i gael picnic yn yr haul cyn cerdded i weld y castell.

Clwb Brecwast

Rydym yn chwilio am rywun i weithio yn y Clwb Brecwast yn yr ysgol. Os oes gennych ddiddordeb, neu rydych yn adnabod rhywun a fyddai gyda diddordeb yn y swydd, cysylltwch â Mrs Rhian Nemes yn Ysgol Llangynfelyn 832458 neu Mr Hefin Jones yn Ysgol Talybont 832276.



Gweithdy Banc Barlays

Cofiwch ymweld â gwefan Papur Pawb

Gwybodaeth am y papur, ei hanes a manylion cysylltu

Hefyd:

- Papur Pawb Sain – i'r rhai sydd â golwg diffygiol
- Tabl amseroedd bysiau yn yr ardal
- Ôl rifynnau'r papur

Noddwyd y wefan hon gan:

Anthony Motors
Volkswagen



papurpawb.com

LION Tal-y-bont

Llwyddiant yn y gegin

Mae'n siwr eich bod wedi gweld yr hysbysebion diweddar yn dangos pa mor dda yw llefydd bwyta o ran hylendid. Mae'n siwr hefyd na fydd hi'n sioc i'r cannoedd os nad miloedd o blant a staff Ysgol Tal-y-bont sydd wedi cael bwyd gan Mrs Jennifer Jones ei bod wedi llwyddo i gael y marciau uchaf o ran y gegin yn yr ysgol. Hoffwn ei llongyfrach yn fawr iawn ar ei llwyddiant a diolch iddi hefyd am baratoi bwyd o'r safon uchaf yn gyson i ni yn yr ysgol.

Cystadleuaeth pêl-droed yr Urdd

Braf iawn oedd gweld dau dim o'r ysgol yn cystadlu'n frwd yng nghystadleuaeth pêl-droed yr Urdd ar gaeau Blaendolau yn ddiweddar. Chwaraeodd y bechgyn a'r merched mawn sawl gêm yn erbyn nifer o dîmau eraill o'r sir mewn pencampwriaeth gyffrous iawn. Hoffwn ddiolch yn arbennig i Karen Evans am ei chymorth gyda'r tîm merched ar y diwrnod.



Dylan Wyn Benjamin

Trawsgwlad yr Urdd

Llongyfarchiadau mawr i Dylan Wyn Benjamin am lwyddo i ennill ei le a chynrychioli'r ysgol yng nghystadleuaeth traws gwlad y sir a drefnwyd gan yr Urdd yn ddiweddar. Da iawn ti Dylan.



Tim pêl-droed bechgyn

Penwythnos Llangrannog

Ar ddechrau mis Ebrill trefnwyd i griw o Ysgol Tal-y-bont fynychu cwrw penwythnos yng Ngwersyll yr Urdd Llangrannog. Roedd y tywydd yn hyfryd ac roedd hi'n braf gweld y plant yn cael cyfle i gymdeithasu gyda disgyblion eraill o wahanol rannau o'r sir. Eleni roeddem yn rhannu grŵp gydag Ysgol Brynsaron ac Ysgol Llangynfelyn. Cafwyd yr amrywiaeth arferol o weithgareddau yn cynnwys marchogaeth ceffylau, y beiciau modur, gwibgartio, sgïo a saethyddiaeth. Roedd hi'n hyfryd i weld y bechgyn yn dawnsio mor egniol yn y disgo ar nos Sadwrn hefyd.



Ceri Morgan

Hoci

Daeth y tymor hoci i ben ar nodyn llwyddiannus, yn enwedig i'r ail dîm a lwyddodd i gyrraedd rowndiau terfynol y gynghriar a gorffen yn ail am y tymor. Hoffwn

Eisteddfod yr Urdd

Erbyn y rhifyn nesaf o Bapur Pawb mi fydd plant o'r ysgol wedi cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Abertawe. Hoffwn ddimuno'r gorau i Glain, Seren, Catrin a Betsan yn eu gwahanol gystadlaethau. Mi fyddant i gyd yn cystadlu ar ddydd Llun yr eisteddfod, felly cofiwch eu cefnogi.

Penodiad

Llongyfarchiadau mawr i Miss Nia Huw ar gael ei phenodi yn Bennaeth Cynorthwyol ar Ysgol Tal-y-bont yn ddiweddar. Pob hwyl iddi yn ei rôl newydd.



Diwrnod rhyngwladol yr Ariannin

Cynhaliwyd diwrnod rhyngwladol bywiog ar 13eg o Ebrill a dysgwyd llawer am fywyd yn yr Ariannin. Gwelwyd amrywiaeth hyfryd o wisgoedd o'r 'gaucho' i'r dawnsiwr flamenco. Mwynhawyd coginio cacennau traddodiadol, addurno baneri a dysgu ychydig o Sbaeneg wrth gwrs! Buom digon ffodus i fenthyl llawer o bethau gwreiddiol o Batagonia i ymchwilio iddynt a chawsom ddiweddglo hamddenol i'r diwrnod wrth wyllo'r ffilm 'Seperado'.



Tim pêl-droed merched

K Hughes

Plymio a Gwresogi

Gosod a Theilio Ystafelloedd Ymolchi
Gwasanaeth Boeler Olew

01970 832129
07761 917235

GAREJ DAVMOR

M.O.T., Gwasanaeth,
Batris a Theiars

Gellir llogi car, fan neu fws mini
i'w gyrru eich hun

www.davmorgarage.co.uk
Ffôn: 01970 832278

Rhian

trin gwallt gartref

25 mlynedd o brofiad
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy
ffôn 832 612
07835 525 553

Siop y Pethe
Aberystwyth

Llyfrau a Recordiau
(01970) 617120

EGLWYSFACH

Sefydliad y Merched, Eglwysfach

Cafodd yr aelodau wledd o luniau yng nghwmni Jill a John Roberts ar 4ydd o Ebrill. Y teitl oedd "Y Gambia". Mae Jill a John wedi gwersylla yno dair gwaith ac roedd ganddynt amrywiaeth o ffotos o'r bywyd gwyllt, adar a phobl y wlad.

Llongyfarchiadau

i Polly a Dafydd Sills-Jones, Ty Mawr, Eglwysfach sydd wedi cael bachgen ar 30/4. Brawd bach i Lisa.

Rhybudd

Mae grŵp o ladron yn yr ardal ar hyn o bryd sydd yn dwyn diesel mas o beiriannau. Peidiwch gadael cebydau na pheiriannau yn agored dros nos.

Gweilch y Pysgod, Cors Ddyfi

Mae'r adar hyn wedi dychwelyd o Affrica ac mae'r iâr wedi dodwy

3 wy! Nawr mae gwirfolwyr yn gwarchod y nyth 24 awr.

Carillion

Mae'r Cwmni sydd yn gwella'r ffordd yn Glandyfi wedi gwahodd pobl Ysgubor y Coed i fynd i'r safle gwaith dydd Mawrth 17 Mai rhwng 11am-8pm i weld y cynlluniau a chael cyfle i ofyn cwestiynau am y cynllun.

BBC Springwatch

Mae'r rhaglen Springwatch yn dod i Warchodfa Ynyshir, Eglwysfach am bythefnos. Mae'r rhaglen gyntaf yn mynd allan ar Nos Llun 30 Mai a dangosir y rhaglenni canlynol ar nosweithiau Llun, Mawrth, Mercher ac Iau tan nos Iau 16 Mehefin 8-9.30pm. Mi fydd Kate Humble, Chris Packham a Iolo Williams ayb yn aros yn yr ardal felly cadewch lygad allan amdany'n nhw!

BONTGOCH

Penblwydd Hapus

Dymuniadau gorau i Serian Evans, Penrhiw, Bont-goch ar ddathlu ei phenblwydd yn 18 oed yn ddiweddar.

Caws, gwin a chàn

Cynhelir noson flynyddol caws, gwin a chàn Eglwys Elerch ar nos Wener 24 Mehefin. Eleni disgwylir Côr Meibion Caron a phlant Ysgol Gynradd Tal-y-bont i'n diddanu. Tocynnau ar gael yn fuan.

Jacs Bont-goch ar daith

Tra bu George Lithgow, Hafod Elerch yn ymweld â'i dadcu ar Ynys Wyth dros y Pasg, manteisiodd ef â'i dad ar y cyfle i ddilyn eu hoff dîm pêl-droed, sef Abertawe. Yn y llun gwelir George a'i dad Mike ar eu ffordd



i Barc Fratton, Portsmouth gyda'u baner arbennig. (Diolch i Sue, mam George, am y gwaith gwnio cywrain). Cyfartal oedd y gêm 1-1, a chafodd y ddau hwyl ar ganu 'Hymns and arias' gyda channoedd o Jacs eraill a deithiodd i Portsmouth.

TALIESIN

Dymuniadau gorau

Dymuniadau gorau i Mai Leeding, Glannant, Tre Taliesin, ar ôl torri ei braich yn ddiweddar. Gobeithio ei bod yn well o lawer erbyn hyn.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Pamela Marsden, Bryn Derw, Tre Taliesin, sy'n dechrau swydd newydd gyda'r elusen Prospects y mis yma. Pob lwc Pam!



Jazz i Glwb Nos Wener

Daeth Jochen Eisentraut a'i Driawd i'r Llew Gwyn nos Wener, 15fed o Ebrill i roi'r noson gyntaf erioed o jazz yn Clwb Nos Wener. Daeth yn amlwg o'r gân cyntaf ei fod yn berfformiwr carismataidd a theimladwy ac yn gyfansoddwr amryddawn.

Daw Jochen o'r Almaen ond fe ddysgodd Gymraeg, gwneud doethuriaeth mewn Seicoleg yng Ngholeg Bangor, a darlithio yno yn rhan amser yn yr Adran Gerddoriaeth. Daeth yn enwog fel cyfeilydd i Lleuwen Steffan ac fel aelod o'r band Acoustique. Mae ganddo ddiddordeb arbennig yng ngerddoriaeth Brazil a bu mor lwcus â threulio'r gaeaf yno. Roedd rhuthmau braf Lladinaidd i'w clywed yn amryw o'r caneuon.

Aeth pawb adref wedi eu swyno gan ddoniau Jochen a'i driawd ifanc, hapus. Cyflwynwyd Jochen gan Robat Gruffudd a diolchwyd gan Ellen ap Gwynn. Noson wahanol, swynol a chofiadwy oedd yn gwrthbrofi'r syniad bod jazz yn rhywbeth i ffanatigiaid barfog yn unig!



Ar Fai 7fed ymunodd rhai aelodau o Gapel Rehoboth Taliesin ag aelodau o Ofalaeth y Garn a Horeb Penrhyncoch, ar daith yn dilyn ôl troed y Crynwyr yn ardal Dolegellau. Dyma lun o'r cerddwyr y tu allan i Fryn Mawr, cartref Roland Ellis, a ymfudodd i America a sefydlu'r coleg enwog sydd yn cario enw ei hen gartref.



Llongyfarchiadau i Rhyddan Tynant a Gareth Ynyseidiol ar ddod yn fuddigol yn y gystadleuaeth ATV yn Diwrnod Maes Cymru, a gynhaliwyd eleni yn y Trallwng ar ddydd Sadwrn, 16 Ebrill.

Cymdeithas Defaid Mynydd Ceredigion

Dydd Llun 1af o Dachwedd 2010, cychwynwyd prawf yr ŵyn hyrddod, a daeth 18 o aelodau a 37 o ŵyn iddo. Bu rhain yn cyd-bori ar borfa yn unig (pan oedd dim eira), yn Bronwylfa, ger Wrecsam tan 16eg. o Ebrill, pryd y daethant yn ôl i Ffald Penpompren i'r aelodau eu derbyn a'u beirniadu. Y prwpas yw ceisio gwella cynnyrch y ddafad drwy ddewis yr ŵyn hyrddod mwyaf addas ar gyfer y dyfodol. Mae swyddogion Hybu Cig Cymru, gyda help rhai o'r aelodau, yn pwyso'r hyrddod bedair gwaith tra byddant i ffwrdd, ac yn defnyddio dull arbennig i gael indecs, gan roi pwyslais ar gyhyr (50%), tyfiant (30%), a brasder (20%). 'Roedd yr indecs uchaf yn 167 efo hwrdd Huw Davies, Llety Ifan Hen, tag 744519 02, a'r ail indecs yn 155 efo hwrdd Siarl Owen, Tynddraenen, Swyddffynnon, tag 0711, a'r trydydd indecs yn 135 efo un Dafydd Jones Ceiro, tag 0141.

I ddewis Pencampwr i dderbyn Cwpan Rumenco, mae pob aelod sy'n cefnogi'r prawf yn cael pleidleisio, sef 3 pwynt i'r

gorau, 2 i'r ail ac 1 i'r trydydd. Y canlyniad oedd i hwrdd Gomer a Martin James, Ponterwyd, gael 23 pleidlais a derbyn Cwpan Rumenco. Yr ail hwrdd oedd un Alwyn Jones, Pensarn, efo 14 pleidlais, ac yn rhannu'r trydydd efo 9 pleidlais yr un, oedd hwrdd David Nutting, Tyhen, ac un Enoc Jenkins, Tynygraig.

Dyma ychydig o fanylion am yr

ennillwyr:

Hwrdd Llety Ifan Hen yn pwyso 49kg. ar 14 Rhagfyr a 72 ar 11 Ebrill

Hwrdd Tynddraenen yn pwyso 47kg. ar 14 Rhagfyr a 68 ar 11 Ebrill

Hwrdd Fferm y Bont yn pwyso 39kg. ar 14 Rhagfyr a 54 ar 11 Ebrill

Hwrdd Pensarn yn pwyso 46kg. ar 14 Rhagfyr a 62 ar 11 Ebrill

Llongyfarchiadau i'r perchnogion.

Wrth ystyried y gaeaf rhewllyd a gafwyd, 'roedd y 37 hwrdd wedi tyfu'n dda, ac wedi cynyddu 16.32 kg. ar gyfartaledd mewn pwysau yn ystod y Prawf.

GARETH EVANS



Gwilym Jenkins, y Llywydd yn cyflwyno Cwpan Rumenco i Gomer James a Beryl Evans, y Cadeirydd yn cyflwyno Cwpan Hybu Cig Cymru i Huw Davies, a'r aelodau yn y cefndir.

Yswiriant, Pensiynau, Buddsoddiadau

Am wasanaeth personol a chyfeillgar, ffoniwch ein swyddfa lleol yn Aberystwyth ar:

01970 612331

www.nfumutual.co.uk/aberystwyth



NFU Mutual
INSURANCE PENSIONS INVESTMENTS

We do right by you

NFU Mutual is The National Farmers Union Mutual Insurance Society Limited (No. 111982). Registered in England. Registered Office: Tiddington Road, Stratford Upon Avon, Warwickshire CV37 7BJ. For security and training purposes, telephone calls may be recorded and monitored.



Glanyrafon

Teiars
Aliniad Olwyn
Ecsôsts
Batris
Brêcs
Hongiad
Bar tynnu
Gwasanaeth
MOT



Rhodfa'r Parc

Am y pris gorau a dewis eang o deiars cysylltwch â ni drwy'r wefan neu galwch heibio am gyngor. Am docyn disgownt ar gyfer alinio eich car ewch i'n gwefan

ALIGNMYCAR.CO.UK

Archebwch eich MOT nesaf ar ein gwefan.

HUWLEWISTYRES.COM



BFGoodrich



KUMHO TYRES

Ffôn 01970 636774

Chwaraeon

Deuawd dawnus, disglair



Dewi Bebb, Gerald Davies a Shane Williams i enwi ond tri - mae Cymru wedi cynhyrchu rhai o asgellwyr rygbi gorau welodd y byd erioed. Gall ddarllenwyr Papur Pawb ymfalchio yn y ffaith bod nid un ond dau ddawnus disglair yn ein mysg yn chwarae ar y naill asgell a'r llall i ddim rygbi Aberystwyth, sef y brodyr Rhys a Rhodri Richards, Clap y Cripiau, Tre'r Ddôl.

Mae'r ddau yn cyfleu pob peth o'r chwaraewr rygbi modern delfrydol gyda'i bod yn fawr, cryf a chyflym. Ond yr hyn sydd yn gwneud y ddau yma yn arbennig yw nid yn unig ei bod yn chwmwth ond ei bod hefyd yn rhedwyr twyllodrus.

I selogion cefnogwyr Aber does dim mwy cyffrous na gweld Rhys neu Rhodri'n cael y bêl, weithiau yn ddwfn yn hanner eu hunain, gan fod y ddau yma yn medru troi amddiffyn yn ymosodiad mewn dim amser! Efallai bod gwaith bob dydd y ddau fel ffermwyr yn rhedeg ar ôl defaid a gwartheg wedi chwarae rhan allweddol i ddatblygu'r sgiliau symud yma!

Mae cip olwg ar ystadegau chwaraewr Aberystwyth am dymor 2009/2010 yn dangos pa mor allweddol yw'r ddau frawd i glwb Aber. Rhodri oedd y chwaraewr wnaeth chwarae'r fwyaf o gemau, 25, y tymor diwethaf a Rhys gyda 7 cais oedd yr ail yn rhestr sgorio ceisiau'r tîm - tipyn o gyfraniad gan y ddau felly!

Wedi gofyn y cwestiwn i'r ddau frawd 'pw yw'r cyflyma' amlygodd rhinwedd ddelfrydol arall ei hunan sef bod y ddau yn gystadleuol iawn a phenderfynol o gael goruchafiaeth...yr ateb ar unwaith wrth y ddau oedd 'Fi'!

Shane Williams, yn naturiol o ystyried ei bod yn chwarae yn yr un safle, yw arwr Rhys a Rhodri ond mae'n adlewyrchiad o'r ffaith fod rygbi yn gynyddol datblygu fel gêm ar draws y byd mai Rene Ranger o Seland Newydd a Quade Cooper o Awstralia yw'r ddau chwaraewr mae'r brodyr yn ei hoffi gwylio mwyaf.

O ran cefnogi rhanbarthau mae un yn cefnogi'r Scarlets a llall y Gweilch. Mewn gêm gynghrair diweddar yn erbyn BP Llandarcy roedd yn amlwg i fechgyn Aber fod yna geiniog dda i'w wneud o chwarae rygbi proffesiynol ar y lefel uchaf. Drws nesaf i gae BP mae canolfan ymarfer y Gweilch ac roedd yn anhygoel gweld ceir mawr moethus y chwaraewyr rhanbarthol wedi eu parcio yn y maes parcio!

Uchelgais rygbi Rhys a Rhodri yw chwarae i Aberystwyth yng nghynghrair cyntaf rygbi Cymru. Byddai hyn yn wych iawn i rygbi'r ardal gan fyddai'n haws cadw talent leol yn chwarae'n lleol a hefyd hwyluso datblygiad chwaraewr ifanc. Mae gan glwb Aberystwyth eisoes record arbennig iawn o ddatblygu

chwaraewyr o oedran ifanc iawn. Mae'n debyg mai un o lwyddiannau diweddar mwyaf byddai asgellwr arall sef Ifan Evans o Bronant sy'n serenni i ddim saith bob ochr Cymru. Mae'n braf iawn gweld Ifan ar y teledu yn chwarae yn y fath lefydd â Hong Kong a Dubai - tipyn o newid o'i gymharu â Tumble a Trimsaran!

Mae'n dymor hir a chaled ac Aberystwyth yw'r clwb sydd yn gorfod teithio mwyaf yng nghynghreiriau Cymru. Er y teithio, y gemau corfforol ac o bosib y dathliadau yn dilyn buddugoliaeth mae'n glod i'r ddau frawd ei bod yn aml allan yn gweithio'n gynnar iawn ar foreau Sul yn dilyn gêm. Mae hyn nid yn unig yn dangos ymroddiad a gwerthfawrogiad o flaenoriaethau ond hefyd mae'n siŵr yn cyfrannu at eu ffitrwydd a chryfder corfforol sy'n amlygu ei hun ar y cae rygbi.

Braf yw cael nodi bod Aberystwyth wedi medru sicrhau ei lle yn gynghrair 2 y Gorllewin am dymor arall wedi iddynt ennill pwynt bonws yng Nghwmllynfell yn ddiweddar. Er colli bu hanes Aber, yn ogystal â'r brodyr Richards, roedd yna ddau arall o ardal Papur Pawb wedi chwarae rhan flaenllaw yn y gêm. Un o chwaraewr mwy profiadol y Clwb sef Eifion Jones, Craig y Delyn, Tal-y-bont, oedd capten y gêm a Steffan Nutting, Tŷ Hen Henllys, un arall o sêr dyfodol y clwb wnaeth greu'r cais holl bwysig olaf.

Ar hyn o bryd mae adeilad clwb Aberystwyth yn cael ei adnewyddu a bydd hyn yn ei wneud yn hyd yn oed fwy o dynfa yn y dyfodol i gael gwylio gemau rygbi o safon a chymdeithasu mewn awyrgylch braf. Maen syndod yn barod faint o boblogaeth ardal Papur Pawb sydd yn aml i'w gweld ym Mhlascrug ar brynhawn Sadyrnau yn cefnogi'r bechgyn lleol.

Pwy a ŵyr, gyda phethau'n edrych ar ei fyny ar ac oddi ar y cae efallai gaiff y ddau ddawnus y cyfle i chwarae ar lefel uwch i'w clwb lleol - rhywbeth byddai pawb sy'n gysylltiedig â chlwb rygbi Aber yn medru ymfalchio ynddo!

GERWYN JONES



Mae tîm Tal-y-bont wedi dioddef ychydig wythnosau anwadal yn ddiweddar. Curwyd un o geffylau blaen y Cynghrair Borth oddi cartref 3-2, cyn colli yn y Gwpan i un i dimau gwanaf y Cynghrair sef Llan-non. Dyma Mike Putt yn cael ei guro i groesiad gan gôl-geidwad Llan-non ar Gae'r Odyn Galch.

CAIS BUDDUGOL

Ar y laf o Fai, ar gae Clwb Rygbi Llanidloes, cafwyd ffeinal gwpan Canolbarth Cymru, rhwng tîm rygbi Athletig Aberystwyth ac ail dim Y Drenwydd. Yng ngharfan Aberystwyth oedd Iolo Davies, Dolcettwr a Steffan Nutting, Tŷ Hen Henllys. Roedd y gêm yn hynod gyffrous a'r ddau dîm yn mynd ar y blaen bob yn ail, ond pan chwythwyd y chwiban olaf, Aberystwyth oedd ar y blaen gyda Steffan yn sgorio'r cais buddugol.

Mathew Davies
Plymio a Gwresogi

07964 124 457 ar gael 24 awr
hefyd gwaith teilio